# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Penrhiw**

**Tŷ Penrhiw**
**Teras Penrhiw**
**Coed-duon**
**NP12 0JH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/06/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Penrhiw

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Pro Care & Support Services Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 75 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. |

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19; felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r plant yn hyderus i rannu eu meddyliau a'u syniadau, ac mae'r staff yn gwrando arnynt. Maent wrth eu bodd yn mynychu'r gwasanaeth, ac maent wedi setlo yn yr amgylchedd cyfarwydd lle y gallant ddysgu a chwarae gyda'u ffrindiau. Mae'r amgylchedd yn lân ac yn fawr. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn deall eu rôl a'u cyfrifoldeb. Maent yn llunio polisïau a gweithdrefnau effeithiol y mae pob aelod o'r staff yn eu rhoi ar waith yn effeithiol. Maent yn adolygu'r gwasanaeth yn rheolaidd, ac yn cynllunio ac yn cwblhau gwelliannau cadarnhaol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cefnogi'r staff yn dda. Mae ganddynt strategaethau rheoli effeithiol, sydd wedi datblygu tîm da. Mae'r staff wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni a'r gymuned leol.

## Llesiant

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y lleoliad. Maent yn rhyngweithio'n dda iawn â'u ffrindiau a'r staff yn y feithrinfa. Maent yn symud yn hyderus o gwmpas yr ardaloedd chwarae, gan ddewis adnoddau a gwneud penderfyniadau am yr eitemau y maent am chwarae â nhw. Maent yn cael eu hannog i fynegi eu barn, ac maent yn mynd at y staff yn aml i ofyn am unrhyw beth y maent yn dymuno ei gael. Mae'r staff yn gwrando ar y plant ac yn ymateb yn briodol. Yn ystod y gwaith cynllunio, caiff diddordebau a syniadau'r plant eu hystyried.

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Maent wedi meithrin cydberthnasau da â'r staff ac maent yn gwybod y bydd y staff yn eu helpu. Mae'r plant yn dechrau meithrin cyfeillgarwch, yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn chware’n hapus â'i gilydd neu ochr yn ochr â'i gilydd. Er enghraifft, gwelsom y plant yn chwarae â'i gilydd yn y pwll tywod yn creu cestyll, ac roedd y babanod yn fodlon eu byd yn gwrando ar stori.

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y maent wedi'u dewis, gan eu bod o ddiddordeb iddynt. Mae'r plant yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored (could you add example and split into 2 sentences?) a chwarae yn yr ardaloedd gwahanol. Er enghraifft, paentio gydag aelod o'r staff, gwneud marciau ar fwrdd sialc a chwblhau pos.

Mae'r plant yn dysgu sgiliau hunangymorth ac yn cael eu hannog i gwblhau tasgau'n annibynnol. Maent yn golchi eu dwylo eu hunain, ac mae ‘helpwr’ enwebedig yn helpu i gasglu'r cwpanau ar ôl amser byrbryd bob dydd. Gwelsom y plant yn ceisio gwisgo eu cotiau yn barod ar gyfer chwarae yn yr awyr agored, ac roedd y staff yn barod i roi cymorth pe bai angen.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae pob un ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant, cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Mae ganddynt wybodaeth dda am sut i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall y gweithdrefnau i'w dilyn os bydd ganddynt bryderon am blentyn. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith yn effeithiol. Mae polisi manwl ar gyfer newid cewynnau ar waith.

Mae'r lleoliad wedi datblygu asesiad risg a pholisi penodol ar gyfer COVID-19, ac mae ganddo weithdrefnau da i ddiogelu'r plant yn ystod y pandemig presennol. Mae arferion hylendid da ar waith i hybu iechyd y plant, gan gynnwys annog y plant i olchi eu dwylo ar adegau priodol.

Mae'r staff yn brofiadol ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, gan rannu tasgau a chyfrifoldebau. Maent yn ofalgar ac yn ymateb i anghenion y plant, gan gadw cyswllt llygad â nhw a siarad yn glir ac yn bwyllog. Mae'r staff yn sicrhau bod pob digwyddiad yn gymdeithasol; maent yn eistedd gyda'r plant wrth iddynt chwarae ac yn ystod arferion dyddiol, megis amser byrbryd ac amser cinio, gan fodelu ymddygiad da a sgiliau cymdeithasol. Mae'r staff yn defnyddio canmoliaeth yn dda i annog a chefnogi'r plant i deimlo balchder ac ymdeimlad o lesiant, er enghraifft '*good effort'* *(ymdrech dda)* pan fydd y plant yn ceisio gwisgo eu hesgidiau eu hunain, a '*thank you, that's very kind' (diolch, mae hynny'n garedig iawn)* pan fydd y plant yn rhannu adnoddau.

Gall y staff gynllunio a darparu adnoddau a gweithgareddau priodol i gefnogi dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol. Maent yn cynllunio amrywiaeth foddhaol o weithgareddau sydd o ddiddordeb i'r plant. Mae arsylwadau rheolaidd ar brofiadau chwarae a dysgu'r plant yn olrhain datblygiad y plant yn briodol.

## Yr Amgylchedd

Mae amrywiaeth dda o asesiadau risg ar waith i gynnal gwasanaeth diogel, ac mae ymarferion tân rheolaidd yn sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â'r drefn. Mae'r staff yn defnyddio rhestr wirio diogelwch ddyddiol er mwyn nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant, gan ddileu'r risgiau hynny lle y bo'n bosibl. Mae cofrestrau'n cofnodi'r amseroedd y mae'r plant yn cyrraedd ac yn gadael y lleoliad. Mae cofnod ymwelwyr yn cofnodi unrhyw ymwelwyr â'r lleoliad yn unol â'r gweithdrefnau diogelwch.

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth ddiddorol ac amrywiol o adnoddau glân, sy'n addas i oedran y plant, sydd mewn cyflwr da, ac sy'n cael eu storio lle y gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd. Mae arddangosfeydd o waith y plant a ffotograffau o gwmpas y lleoliad. Fodd bynnag, nid ydynt ar lefel isel felly ni all y plant eu gweld. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn ddiogel ac yn cynnig amrywiaeth dda o gyfarpar o ansawdd. Mae'r ardaloedd mawr dan do yn cynnig digon o le i'r plant chwarae. Mae'r babanod yn cael gofal ar lawr cyntaf yr adeilad gydag ystafell cotiau clyd ar wahân ar gyfer cysgu. Mae ystafell ar gael i'r plant bach gysgu, sydd hefyd yn cael ei defnyddio i gynnal rhai gweithgareddau ac i storio adnoddau. Mae angen defnyddio'r ardal hon yn well er mwyn sicrhau ei bod yn fwy croesawgar i'r plant chwarae ac ymlacio ynddi.

Mae'r teganau a'r cyfarpar yn cael eu glanhau a'u diheintio'n rheolaidd, sy'n arbennig o bwysig yn ystod y pandemig presennol. Mae'r amgylchedd yn cynnwys dodrefn ac adnoddau o faint addas ac o ansawdd da i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, byrddau a chadeiriau o faint addas i blant, ac ardal storio cotiau ar gyfer eu heiddo.

## Arwain a Rheoli

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth ddealltwriaeth dda o'r gofal a gynigir. Mae datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r hyn a ddarperir. Mae'n cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, sy'n golygu y gall rhieni wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a yw'r gwasanaeth yn diwallu anghenion eu plentyn a'u hanghenion nhw.

Mae'r arweinwyr yn deall pwysigrwydd sicrhau bod yr holl hyfforddiant gorfodol i'r staff yn cael ei gwblhau. Mae'r staff yn cael budd o gyfleoedd hyfforddi a datblygu pellach. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol cyfredol ac wedi cael cynnig dewis da o hyfforddiant ychwanegol er mwyn helpu i ddatblygu eu sgiliau ymhellach. Mae'r staff yn cadarnhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda iawn gan dîm rheoli sydd ar gael i roi cyngor, arweiniad neu gefnogaeth drwy gydol y diwrnod gwaith.

Mae systemau ar waith i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn casglu barn rhieni, ac yn ystyried diddordebau ac anghenion y plant wrth werthuso'r gwasanaeth. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud, gan gynnwys adeilad newydd dros dro yn yr ardd ar gyfer y clwb ar ôl ysgol. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn sicrhau bod y staff yn gallu rhannu syniadau, myfyrio ar eu hymarfer, a gwella o fewn eu rôl.

Mae'r staff yn rhoi adborth rheolaidd i'r rhieni am yr hyn y mae eu plant yn ei wneud, a'u cynnydd. Mae'r staff yn cael trafodaethau â'r rhieni pan fyddant yn cyrraedd ac yn casglu eu plentyn, a chaiff dyddiaduron dyddiol eu cwblhau ar gyfer pob plentyn.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Adolygu cynllun ystafell ychwanegol y plant bach er mwyn darparu ardal gysgu well a gwneud defnydd gwell o'r ardal

A2. Atgyweirio seddi sydd wedi'u rhwygo yn ystafell ychwanegol y plant bach neu osod rhai newydd yn eu lle

A3. Gostwng yr arddangosfeydd o ffotograffau a gwaith celf y plant, er mwyn sicrhau y gall y plant eu gweld.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
| --- |

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
| --- | --- |
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 24/08/2021